***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 213

# Gorchymyn Pysgodfa Cregyn Gleision a Wystrys Afon Menai (Dwyrain) 2022

## RHAN 3

### Yr hawl i reoleiddio pysgodfa

**Cynnwys trwydded**

**18.** Rhaid i drwydded—

(a) datgan enw a chyfeiriad y trwyddedai;

(b) nodi manylion adnabod unrhyw lestr a awdurdodwyd i weithredu yn ardal y bysgodfa a reoleiddir, sef naill ai—

(i) enw a rhif trwydded llestr awdurdodedig; neu

(ii) rhif adnabod bad dŵr ar gyfer llestr ddidrwydded;

(c) pennu'r dulliau casglu a ganiateir;

(d) pennu'r cyfnod o amser y mae trwydded yn ddilys amdano. Ni chaniateir i'r cyfnod hwnnw fod yn hwy nag 1 flwyddyn;

(e) cynnwys amodau trwydded priodol; a

(f) meddu ar rif adnabod unigryw.